



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



**30 Medi 2022**

## **Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys i**

### **Arolygiad 2021/22 o Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL)**

Mae'n dda iawn gweld ymdrechion Heddlu Dyfed-Powys i wella'n barhaus yn cael eu cydnabod yn yr adroddiad hwn gan Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (AHGTAEF).

Ychydig dros flwyddyn yn ôl, ystyriodd AHGTAEF fod methiant gwasanaeth difrifol neu berygl i ddiogelwch y cyhoedd yn ardal Dyfed-Powys. Arweiniodd hyn at Heddlu Dyfed-Powys yn derbyn achos pryder carlam mewn perthynas â'r ffordd maen nhw'n cofnodi troseddau. Ar y pryd, mynegais fy siom nad oedd yr Heddlu wedi llwyddo i wneud y gwelliannau gofynnol, er fy mod i wedi craffu ar y mater yn barhaus.

Yn dilyn ymdrechion sylweddol, mae'r gwelliannau amlwg ym mherfformiad yr Heddlu yn y maes hwn yn galonddid imi, yn enwedig eu cywirdeb o ran cofnodi troseddau rhywiol.

Mae'r gwelliannau a wnaed gan yr Heddlu yn ystod y misoedd rhwng yr arolygiad cychwynnol a'r ailymweliad yn arbennig wedi creu argraff arnaf. Mae hyn yn dangos i mi fod yr Heddlu'n gwrando ac yn ymateb yn gadarnhaol i adborth, er budd y cyhoedd. Yn hollbwysig, mae'n profi y gall y gwasanaeth wella'n gyflym pan fod angen. Rwy'n disgwyl i'r Prif Gwnstabl gynnal y momentwm hwn er mwyn cyflawni gwelliannau cyson.

Roedd hi'n dda gennyf weld y cymorth a'r craffu allanol a ddarperir gan fy Mhanel Sicrhau Ansawdd a'm Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, a'n Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ar y cyd, yn cael eu cydnabod. Yr ydym wedi cydnabod ers amser y byddai'r fforymau hyn yn elwa o gynyddu eu hamrywiaeth a'u cyrhaeddiad. Yr wyf innau yn ymrwymedig i sicrhau ein bod ni'n gwneud pob dim o fewn ein gallu i wella ar hyn yn bersonol.

Yr wyf yn cydnabod bod dal angen gwella craffu allanol ar y defnydd o bwerau'r heddlu. Mae'r data a ddyfynnwyd o fewn yr adroddiad arolygiad a gwaith craffu fy swyddfa'n awgrymu bod y rhan fwyaf o'r problemau yn y maes hwn yn ymwneud â chamgymeriadau gweinyddol a chamgymeriadau wrth gofnodi yn hytrach na thriniaeth wael o'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r Prif Gwnstabl a minnau'n parhau i gydweithio er mwyn monitro perfformiad a chanfyddiad o driniaeth swyddogion o'r cyhoedd. Rwy'n disgwyl y bydd rhai gwelliannau yn ardal Dyfed-Powys yn cael eu rhoi ar waith drwy arweinyddiaeth y Dirprwy Brif Gwnstabl o linydd ymgysylltu cymunedol Cynllun Gweithredu Hil Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.

Er bod dal mwy i'w wneud yn ddiau, yr wyf yn fodlon bod Heddlu Dyfed-Powys dal yn symud yn y cyfeiriad iawn o dan arweinyddiaeth y Prif Gwnstabl newydd, Dr Richard Lewis.